

Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu (CATE) 2019

Canllawiau ar gyfer
sefydliadau a thimau a
enwebwyd

Cynnwys

1.	Cefndir	3
2.	Canllawiau ar gyfer enwebu	3
2.1	Pwy sy'n gymwys	3
2.2	Dogfennau enwebu	4
2.3	Gofynion fformatio	5
2.4	Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth	6
2.5	Cyflwyno a dyddiad cau derbyn enwebiadau	6
2.6	Ffioedd ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn aelodau o'r Llinyn Dysgu ac Addysgu	7
3.	Meini Prawf y Wobr	7
4.	Datblygu'r Cais	8
4.1	Adran A: Datganiad o'r Cyd-destun	8
4.2	Adran B: Cais yn erbyn y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE	9
5.	Datganiad o Gefnogaeth	11
6.	Y broses adolygu a dethol	12
7.	Canlyniadau a chyhoedduswydd	13
8.	Y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad rhwydweithio	14
9.	Adroddiad gan enillwyr gwobr CATE	14
Atodiad 1: Gofynion enwebu ar gyfer timau a chysylltiadau sefydliadol		15
Atodiad 2: Dyddiad cau ac amserlen asesu		16
Atodiad 3: Ffurflen Gais CATE 2019		17
Atodiad 4: Datganiad o Gefnogaeth		19
Atodiad 5 – Penawdau sgorio CATE 2019		21
Atodiad 6 Datganiad Preifatrwydd CATE Advance HE		22

1. Cefndir

Diben y Wobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu (CATE) yw cydnabod a dathlu gwaith ar y cyd sydd wedi cael effaith amlwg ar ddysgu ac addysgu. Ers ei gyflwyno yn 2016, mae'r cynllun wedi amlygu'r rôl allweddol sydd gan waith tîm i'w chwarae mewn addysg uwch. Bydd pob gwobr yn cydnabod tîm sydd wedi galluogi newid mewn arferion ar gyfer cydweithwyr neu fyfyrwyr ar lefel sefydliadol neu ddisgyblaethol. Does dim cyfyngiad ar faint y tîm.

Caiff y cynllun ei drefnu a'i redeg gan Advance HE. Ffurfiwyd Advance HE ym mis Mawrth 2018, ar ôl uno'r Uned Herio Cydraddoldeb, yr Academi Addysg Uwch a'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch. Mae Advance HE yn parhau â gwaith yr Academi Addysg Uwch i drefnu a chynnal y Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu, gan gynnwys y Wobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu.

Bydd hyd at 15 o dimau'n cael eu dewis i dderbyn y wobr yn 2019. Bydd yr holl dimau a enwebwyd yn cael gwybod am y canlyniad yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **15 Gorffennaf 2019**. Bydd y timau llwyddiannus yn cael eu gwahodd i ginio dathlu, lle byddant yn derbyn eu Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu.

Bydd Advance HE yn gweithio gyda thimau i'w helpu i arddangos eu gwaith ac i ledaenu effaith y timau a/neu'r cynllun. Bydd Advance HE yn hyrwyddo'u proffil ymhellach drwy eu gwahodd i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gan Advance HE. Ar enill gwobr, mae gan bob aelod o dîm CATE rôl i'w chwarae i fod yn llysgennad dros y cynllun a chefnogi'r gwaith parhaus o wella dysgu ac addysgu.

Mae Panel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu Prydain yn chwarae rhan allweddol yn y broses. Mae'r Panel yn rhoi cyngor am y meini prawf, y broses asesu a safoni, a dewis enillwyr. Mae'r panel yn annibynnol ar Advance HE ac mae'n cynnwys uwch-gynrychiolaeth o wledydd Prydain a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau manwl i dimau ar sut i baratoi a chyflwyno cais ar gyfer y wobr.

2. Canllawiau ar gyfer enwebu

2.1 Pwy sy'n gymwys

Mae cynllun CATE ar agor i holl Ddarparwyr Addysg Uwch gwledydd Prydain, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a darparwyr annibynnol 'amgen'. Estynnir gwahoddiad i ddarparwyr addysg uwch **enwebu un tîm** sy'n gallu dangos yn glir ei fod wedi cael effaith ar ddysgu ac addysgu drwy gydweithio.

I sefydliadau sy'n aelodau o Linyd Dysgu ac Addysgu Advance HE, mae cymryd rhan yng nghynllun CATE yn un o fanteision bod yn aelod. Ar gyfer sefydliadau nad ydyn nhw'n aelodau, mae ffi i'w thalu (gweler Adran 2.6).

Mae Advance HE yn disgwyl bod sefydliadau yn sicrhau nad yw prosesau ar gyfer dewis tîm i'w enwebu yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u bod yn gynhwysol o'r amrywiaeth o ffyrdd mae staff a myfyrwyr yn cyfrannu at ddysgu ac addysgu, gan ystyried amrywiaeth lawn eu staff a'u corff myfyrwyr. Gall aelodau o'r tîm fod yn gwneud unrhyw rôl sy'n cyfrannu at wella addysgu a dysgu. Mae cydweithwyr sy'n gweithio ar gampysau tramor ac sy'n cael eu contractio gan ddarparwyr addysg uwch ym Mhrydain yn gymwys i fod yn rhan o'r tîm. Anogir dewis myfyrwyr i fod yn aelodau o'r tîm, a gallant fod yn fyfyrwyr sy'n astudio neu mewn rôl gynrychioli.

Dylai pob tîm ddangos ymwneud uniongyrchol gyda myfyrwyr. Er nad oes gofyn i fyfyrwyr fod yn aelodau o'r tîm, dylai'r tîm ddangos yn glir sut mae myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yng ngwaith y tîm.

Anogir sefydliadau i ystyried sut mae modd defnyddio'r broses ddewis fewnol i greu proffil cadarnhaol ar gyfer y tîm a gaiff ei enwebu a sut fyddai modd iddyn nhw fel sefydliad barhau i hyrwyddo gwaith y tîm os na fyddan nhw'n llwyddiannus yn y broses wobrwyo, gan fod CATE yn gystadleuol iawn.

Ni chaiff arweinydd y tîm fod â chais gweithredol ar gyfer y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol (NTFS) ar yr un pryd â chais am wobwr CATE. Rhaid i bob aelod o staff yn y tîm fod yn Gymrawd (mewn unrhyw gategori) o'r Academi Addysg Uwch neu'n gweithio tuag at fod yn Gymrawd.

Gwaith y tîm a enwebwyd yn unig ddylid ei gynnwys yn y Cais, ac mae Advance HE yn cadw'r hawl i fwydo dogfennaeth drwy feddalwedd llên-ladrad.

2.2 Dogfennau enwebu

Mae enwebiadau'n cynnwys y dogfennau a'r ffurflenni a restrwyd isod. Dylai'r cyswllt sefydliadol gydlynw'r broses o gyflwyno'r enwebiad llawn (gweler Adran 2.5); mae rhestr wirio wedi'i chynnwys er mwyn i'r cyswllt sefydliadol gadarnhau bod yr holl ddogfennau wedi'u cyflwyno ar gyfer y tîm sy'n cael ei enwebu. Dylai dogfennau gael eu llwytho i Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE a dylai ffurflenni gael eu llenwi ar-lein drwy system Arolygon Ar-lein.

Mae'r dogfennau enwebu yn cynnwys y canlynol:

- **Rhestr wirio ar gyfer y cyswllt sefydliadol:** y cyswllt sefydliadol i lwytho ffurflen i lawr o Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE, ei llenwi a'i llwytho yn ôl i gadarnhau bod yr holl ddogfennau a ffurflenni enwebu yn bresennol (gweler Atodiad 1);
- **Cais:** datganiad ysgrifenedig gan y tîm a enwebwyd, gan ddefnyddio'r profforma a lwythwyd i lawr, sy'n disgrifio eu heffaith eithriadol yng nghyd-destun meini prawf y wobwr (**dim mwy na 3500 o eiriau**), yn ogystal â Datganiad Cyd-destunol cyffredinol trofwaol (dim mwy na 300 gair) a Rhestr o Gyfeirnodau ar gyfer dyfyniadau a ddefnyddiwyd yn y Cais (ni fydd hyn yn cael ei gynnwys yn nifer y geiriau);

- **Datganiad o gefnogaeth wedi'i lofnodi:** datganiad sy'n rhoi ardystiad a chyd-destun sefydliadol i gefnogi'r Cais sydd wedi'i wneud a'i lofnodi gan Is-Ganghellor y sefydliad (neu swyddog cyfatebol*), gan ddefnyddio'r profforma a lwythwyd i lawr (**dim mwy na 1,000 o eiriau**);
- **Ffurflen enwebu:** ffurflen ar-lein i'w chwblhau gan arweinydd y tîm a enwebwyd sydd ar gael drwy'r [ddolen hon](#). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y tîm, proffil 350 gair, proffil cryno 50 gair a dau ddyfyniad 20 gair. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd CATE ar gyfer y timau llwyddiannus;
- **Lluniau:** tri llun ar draws o safon uchel o'r tîm; 1Mb a 300dpi (isafswm) ar ffurf JPEG;
- **Ffurflen monitro cyfle cyfartal:** ffurflen ar-lein i'w chwblhau gan bob aelod o'r tîm, sydd ar gael drwy'r [ddolen hon](#). Bydd y data'n cael ei ddefnyddio'n ddiennw i adrodd am gydraddoldeb ac amrywiaeth.

2.3 Gofynion fformatio

Dylid defnyddio'r confensiynau canlynol wrth gwblhau eich Cais. Bydd hyn yn sicrhau tegwch a chysondeb yn ystod y broses asesu i'r holl enwebeion.

- **Cyfanswm y geiriau:** pan nodir nifer y geiriau a ganiateir, bydd pob pennawd, testun mewn tablau a diagramau, ôl-nodiadau a rhifau yn cyfri tuag at gyfanswm y geiriau. Mae gan Adrannau A a B y Cais uchafswm nifer y geiriau; bydd adolygwyr yn diystyru unrhyw eiriau sy'n fwy na hynny.
- **Ffont:** Arial maint 12
- **Diagramau:** caniateir diagramau. Dylid cyfri unrhyw destun sydd wedi'i gynnwys mewn diagramau a'i gynnwys yng nghyfanswm y geiriau.
- **Penynnau a throedynnau:** dylid defnyddio'r pennyn ar gyfer nodi enw'r tîm a'r sefydliad sy'n enwebu, a'r troedyn ar gyfer nodi rhifau'r tudalennau.
- **Cyfeirnodau:** mae modd cynnwys cyfeirnodau yn nghorff y testun neu fel ôl-nodiadau (yn hytrach na throednodiadau). Bydd dyfyniadau sy'n cael eu defnyddio yn y testun yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm y geiriau.
- **Dolenni, lluniau a logos:** ni fydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses asesu, ac felly dylid osgoi eu defnyddio.
- **Cadw ffeiliau:** Dylid defnyddio'r confensiwn enwi canlynol ar gyfer pob ffeil a gaiff ei chyflwyno: **<Sefydliad_LlythyrenGyntaf.Cyfenw(Arweinydd y Tîm)_Enw'rDdogfen>**;
e.e. PrifysgolBywyd_D.Iwan_Cais

Mae Advance HE a'r Panel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw enwebiad sy'n methu â glynu at y gofynion hyn. Gan hynny, cyfrifoldeb y sefydliad sy'n enwebu ac arweinydd y tîm yw sicrhau bod y cais yn glynu at y gofynion o ran fformatio, y llofnodion angenrheidiol a chyfanswm y geiriau.

2.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth

Bydd Advance HE yn cadw'r holl ddata personol sy'n cael ei ddarparu drwy gyflwyno enwebiad tîm ar gyfer cynllun CATE yn gyfrinachol, a dim ond dogfennaeth berthnasol fydd yn cael ei rhannu gyda'r adolygwyr a'r Panel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu fel sydd wedi'i egluro yn y ddogfen ganllaw hon.

Mae Advance HE wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n casglu data am aelodau o'r tîm at ddibenion monitro ystadegau drwy'r **Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal**. Mae'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ar gael ar-lein ar Arolygon Ar-lein, a [thrwyr ddolen hon](#). **Dylai pob aelod o'r tîm llenwi ffurflen**. Rhaid i'r cyswllt sefydliadol wirio i sicrhau bod pob aelod o'r tîm a enwebwyd wedi llenwi'r ffurflen.

Nid yw'r wybodaeth a gaiff ei rhoi ar y Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal yn ffurfio rhan o'r Cais, ac ni fydd y wybodaeth hon ar gael i'r adolygwyr. Bydd Advance HE yn defnyddio'r wybodaeth yn ddienw at ddibenion monitro ystadegau. Bydd cyfrinachedd y data a gaiff ei gyflwyno'n cael ei gynnal gan Advance HE. Mae Advance HE yn cyfuno'r wybodaeth a gaiff ei darparu gan holl aelodau'r timau a enwebwyd ac yn rhannu'r data'n ddienw er mwyn cynhyrchu adroddiad blynyddol am gydraddoldeb ac amrywiaeth i'r Panel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu.

Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd mae Advance HE yn casglu, yn storio ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol am enwebeion CATE ar gael yn ein datganiad polisi (Atodiad 6).

2.5 Cyflwyno a dyddiad cau derbyn enwebiadau

Rhaid i ddogfennau enwebu gael eu cyflwyno gan bwynt cyswllt canolog a enwyd yn y sefydliad (**cyswllt sefydliadol**) drwy Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE. Bydd enw defnyddiwr a chyfrinair yn cael eu darparu i'r cyswllt sefydliadol i gael mynediad at y Rhith-amgylchedd Dysgu er mwyn cyflwyno'r enwebiad(au). Bydd cyfarwyddiadau llawn yn cael eu darparu.

Rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau enwebu erbyn **15:00 (GMT) ddydd Mercher 27 Mawrth 2019**. Mae'r cyswllt sefydliadol yn gweithredu ar ran eu sefydliad a bydd Advance HE yn tybio eu bod yn gweithredu yn unol â disgwyliadau eu huwch reolwyr pan fyddant yn cyflwyno enwebiad y sefydliad.

Bydd neges e-bost awtomatig yn cael ei hanfon at y cyswllt sefydliadol yn cydnabod bod yr enwebiad wedi cael ei lwytho ar y system, fodd bynnag, er bod yr e-bost yn cadarnhau bod enwebiad wedi'i wneud, nid yw'n cadarnhau bod yr holl ddogfennaeth angenrheidiol yn bresennol. Ar ôl cyflwyno enwebiad, bydd Advance HE yn sicrhau bod yr holl ddogfennau wedi'u derbyn a bod modd eu hagor. Bydd Advance HE yn cadarnhau mewn neges e-bost bod yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u derbyn. Bydd y neges yn cael ei hanfon o'r cyfeiriad cate@advance-he.ac.uk at y cyswllt sefydliadol erbyn 15:00 (GMT) ddydd Mercher 10 Ebrill 2019. Os nad yw'r cyswllt sefydliadol wedi clywed gan Advance HE erbyn yr amser hwnnw, yna dylid cysylltu ag Advance HE i gadarnhau, naill ai drwy e-bostio cate@advance-he.ac.uk neu drwy ffonio 01904 717500 cyn 15:00 (GMT) ddydd Gwener 12 Ebrill 2019.

2.6 Ffioedd ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn aelodau o'r Llinyn Dysgu ac Addysgu

Mae Darparwyr Addysg Uwch ym Mhrydain sy'n aelodau sefydliadol o Llinyn Dysgu ac Addysgu Advance HE yn gymwys i gyflwyno un enwebiad i CATE, fel un o fanteision bod yn aelod sefydliadol.

Mae modd i ddarparwyr addysg uwch ym Mhrydain nad ydynt yn aelodau gymryd rhan yng nghynllun CATE 2019 hefyd. Y ffi i sefydliadau nad ydynt yn aelodau yw £1,500 (yn cynnwys treth ar werth).

Os nad yw sefydliad yn aelod o Llinyn Dysgu ac Addysgu Advance HE, bydd angen i adran gyllid y sefydliad lenwi [Ffurflen Dalu ar gyfer Ymgeiswyr CATE](#), sydd ar gael i'w llwytho o Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE. Dylid e-bostio'r ffurflen, ar ôl ei llenwi, at dîm cyllid Advance HE i finance@advance-he.ac.uk. Dylid anfon unrhyw ymholiad am gostau drwy e-bost i cate@advance-he.ac.uk.

3. Meini Prawf y Wobr

Bydd pob tîm yn cael ei asesu ar sail y dystiolaeth yn y dogfennau enwebu ar gyfer y **ddau faen prawf sydd i'r wobr**:

Maen Prawf 1 CATE: Rhagoriaeth yn null cydweithredol y tîm

Tystiolaeth o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm a'r cyfleoedd mae hynny'n ei gynnig.

Maen Prawf 2 CATE: Rhagoriaeth o ran effaith gweithio ar y cyd

Tystiolaeth bod y tîm wedi cael effaith amlwg ar ddysgu ac addysgu, gan gynnwys y tu hwnt i faes academaidd neu broffesiynol cyfyng y tîm.

Bydd adolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o gyrhaeddiad, gwerth ac effaith yn Adran B o'r Cais. Nodwch y rhoddir yr un ystyriaeth i'r ddau faen prawf uchod yn y broses asesu, a chânt eu pwysoli'n gyfartal yng nghyfanswm y sgôr.

4. Datblygu'r Cais

Mae tair adran i'r Cais:

- Adran A: Datganiad o'r Cyd-destun (dim mwy na 300 gair);
- Adran B: Cais ar sail Meini Prawf CATE (dim mwy na 3500 gair);
- Adran C: Rhestr Gyfeirnodau

Dim ond Adran B, sy'n cynnwys tystiolaeth i ateb dau faen prawf CATE, sy'n cael ei sgorio gan adolygwyr; ni fydd y Datganiad o'r Cyd-destun na'r Rhestr Gyfeirnodau yn cael eu sgorio.

4.1 Adran A: Datganiad o'r Cyd-destun

Mae Advance HE a'r Panel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn cydnabod bod rhagoriaeth cymorth dysgu ac addysgu yn seiliedig ar gyd-destunau academaidd, proffesiynol a sefydliadol penodol. Bydd natur y cyd-destun sefydliadol, a chyfle pob tîm a enwebwyd i gyfrannu, yn cael eu hystyried.

Bydd amrywiadau sylweddol rhwng y timau a enwebwyd a fydd yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cyfansoddiad, cyd-destun a gwaith y timau. Mae'r Datganiad o'r Cyd-destun (300 gair), sy'n newydd ar gyfer 2019, ar ddechrau Cais y tîm ac ni fydd yn cael ei sgorio gan adolygwyr. Dylid defnyddio'r adran newydd hon i amlygu cyd-destun, gosodiad a maes gwaith y mae'r tîm yn gweithio ynddo.

Mae'r Datganiad o'r Cyd-destun yn creu ffrâm ar gyfer Adran B y Cais ac yn galluogi'r adolygwyr i ymglyfeirio'u hunain â'r dystiolaeth a ddarparwyd yn erbyn y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE. Dylai timau ddefnyddio'r Datganiad o'r Cyd-destun i esbonio cyd-destun y sefydliad a'u tîm, cyfansoddiad y tîm a'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn y tîm. Os yw'r naratif yn Adran B y Cais yn seiliedig ar dystiolaeth o wahanol sefydliadau/y sector a/neu diwydiant/cyrff sector ehangach, dylid esbonio hyn hefyd yn y Datganiad o'r Cyd-destun. Dylai'r tîm ei gwneud hi'n eglur beth yw natur eu harferion dysgu ac addysgu (e.e. mathau o ddysgwyr, disgyblaethau/meysydd arbenigol, amlinelliad cryno o gwmpas a graddfa arferion y tîm).

Ni ddylid defnyddio'r Datganiad o'r Cyd-destun i ddarparu gwybodaeth a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o effaith i'r naratif sydd wedi'i nodi yn Adran B y Cais. Dyma rai enghreifftiau o beth na ddylid eu cynnwys yn y Datganiad o'r Cyd-destun (ond i'w cynnwys yn Adran B yn lle hynny) i gyfleu'r pwynt ymhellach:

- Datblygiad y tîm fel tîm a'u hymagwedd at weithio ar y cyd (i'w ddefnyddio ym Maen Prawf 1 y dystiolaeth);

- Cyfraniad y tîm at flaenoriaethau thematig/sector ehangach (cysylltiad â Maen Prawf 1);
- Gwaith ar y cyd gyda chyrrff allanol (cysylltiad â Maen Prawf 1);
- Lledaenu mentrau ac effaith mewn meysydd/campysau/timau eraill (cysylltiad posib â Maen Prawf 1 neu 2);
- Gwaith sy'n effeithio ar gyrff proffesiynol neu gymunedau ehangach (e.e. defnydd posib mewn tystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 2); ac ati.

4.2 Adran B: Cais yn erbyn y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE

Dylai'r timau a enwebwyd ddefnyddio Adran B y Cais i nodi tystiolaeth ar gyfer cyrhaeddiad, gwerth ac effaith eu hymarfer yn erbyn y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE, yn eu tro. Ni ddylai Adran B fod yn hwy na 3500 o eiriau.

Mae sawl ffordd wahanol o ddangos tystiolaeth ar gyfer y ddau faen prawf, fel sy'n briodol i natur gwaith y tîm. Mae rhai enghreifftiau dangosol wedi'u nodi isod, ond ni ddylai timau deimlo'u bod wedi'u cyfyngu i'r enghreifftiau hyn gan eu bod wedi'u cynnwys i ddangos y mathau posib o dystiolaeth yn erbyn pob maen prawf.

Pwyntiau pwysig i'w nodi:

- dylai'r timau ddefnyddio Adran B y Cais i gynnig ac i gyfeirio at dystiolaeth ar gyfer y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE, yn eu tro;
- bydd angen i'r timau ddefnyddio tystiolaeth benodol o effaith i gefnogi'u cais yn erbyn pob maen prawf. Gall enghreifftiau o ffynonellau posib gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):
 - gwerthusiadau ac adborth gan fyfyrwyr;
 - adborth yn sgil arsylwadau gan gyfoedion;
 - adolygiadau neu werthusiadau adrannol neu sefydliadol blynyddol;
 - adborth yn sgil digwyddiadau cenedlaethol eraill;
 - deunydd cymorth i fyfyrwyr;
 - gwaith gyda sefydliadau partner eraill;
 - data meintiol sy'n nodi graddfa, cyrhaeddiad ac effaith gwaith y tîm a enwebwyd;
- dylai'r timau ddangos eu bod yn defnyddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hymarfer.

Y sefydliad sy'n enwebu a'r tîm ei hun sydd i benderfynu beth yw tystiolaeth briodol o effaith, ond anogir timau i sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei gyfleu'n glir yn Adran B y Cais. Mae timau o wahanol ddisgyblaethau neu rolau academiaidd yn meddu ar arddulliau cyfathrebu a dadansoddi gwahanol, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod y broses asesu. Gan hynny, does dim 'arddull' benodol sy'n ddisgwyliedig mewn ceisiadau, a bydd enghreifftiau yn cael eu hasesu a'u sgorio ar sail eu cyfraniadau i'r meini prawf yn gyffredinol.

Ateb Maen Prawf 1: Rhagoriaeth yn null cydweithredol y tîm

Tystiolaeth o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm a'r cyfleoedd mae hynny'n ei gynnig.

Mae Maen Prawf 1 yn canolbwyntio'n bennaf ar ddull a gwerth gweithio ar y cyd, a chynllunio ar gyfer cyrhaeddiad ac effaith. I roi rhai enghreifftiau dangosol, byddai modd dangos Maen Prawf 1 drwy ddarparu tystiolaeth o ragoriaeth o ran:

- nodau, amcanion a sail resymegol glir am ddull y tîm a sut mae'r grŵp yn creu tîm ac wedi datblygu fel tîm;
- dangos ymwneud uniongyrchol gyda myfyrwyr yn y tîm, neu gyda'r tîm;
- dangos sut mae'r tîm wedi cyfrannu at flaenoriaethau thematig a sector ehangach, er enghraifft: asesu a rhoi adborth; cadw myfyrwyr, cyflogadwyedd, datblygu staff, myfyrwyr fel partneriaid, technoleg a chyfryngau cymdeithasol;
- gweithio ar y cyd gydag ystod o grwpiau rhanddeiliaid;
- ymgorffori ymarferion mewn nifer o raglenni, disgyblaethau, campysau neu sefydliadau;
- bod yn hyblyg ac yn greadigol wrth weithio i ddatrys sefyllfaoedd neu ddigwyddiadau annisgwyl;
- bod â phrosesau ar waith i fesur effaith neu ganlyniadau cydweithio.

Ateb Maen Prawf 2: Rhagoriaeth o ran effaith gweithio ar y cyd

Tystiolaeth bod y tîm wedi cael effaith amlwg ar ddysgu ac addysgu gan gynnwys y tu hwnt i faes academaidd neu broffesiynol cyfyng y tîm.

Mae Maen Prawf 2 yn canolbwyntio ar ddangos *cyrhaeddiad ac effaith* gwaith y tîm a'i *werth* y tu hwnt i'r cyd-destun cychwynnol. I roi rhai enghreifftiau dangosol, byddai modd dangos Maen Prawf 2 drwy ddarparu tystiolaeth o:

- gyrhaeddiad gwaith y tîm;
- yr effaith ehangach o ganlyniad i weithio fel tîm;
- yr effaith yn sgil cefnogi cydweithwyr a/neu ddylanwadu ar gymorth ar gyfer dysg myfyrwyr;
- yr effaith ar ganlyniadau dysgu neu ddysg myfyrwyr;
- effaith unrhyw ganlyniadau/allbynnau cydweithio.

Mae adolygwyr yn 'sgorio' y ddwy ran yn Adran B ar wahân. Mae Atodiad 5 yn nodi'r penawdau sgorio a gaiff eu defnyddio gan adolygwyr i bennu sgoriau (0-5) ar gyfer y dystiolaeth yn erbyn y ddau faen prawf gwobrwyo (uchafswm sgôr o 10 gan bob adolygwr).

4.3 Adran C: Rhestr Gyfeirnodau

Mae'r Cais yn cynnwys adran derfynol (Adran C) lle dylai timau nodi rhestr o unrhyw gyfeirnodau a ddefnyddiwyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer pob maen prawf y wobwr. Er enghraifft, mae'n bosib bod y tîm yn cyfeirio at ganlyniadau gwaith ymchwil, ysgolheictod ac ymarfer proffesiynol perthnasol a/neu ymgysylltu a chyfrannu at lenyddiaeth sefydledig, neu gynhyrchu eu sail tystiolaeth eu hunan ar gyfer dysgu ac addysgu.

Nid oes uchafswm ar nifer y geiriau yn y Rhestr Gyfeirnodau, fodd bynnag, ni ddylai'r rhestr gynnwys unrhyw ddyfyniadau y cyfeirir atyn nhw'n uniongyrchol yn y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adran B y Cais.

Nid yw'r Rhestr Gyfeirnodau yn rhan o'r broses adolygu ac felly nid yw'n cael ei 'sgorio' gan yr adolygwyr. Diben y rhestr yw galluogi adolygwyr i ddod o hyd i ffynonellau a chynnig canmoliaeth haeddiannol i awdur sydd wedi ysbrydoli un o feysydd gwaith y tîm sydd wedi'u cynnwys mewn tystiolaeth yn y Cais.

5. Datganiad o Gefnogaeth

Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn rhan hanfodol ac allweddol o'r enwebiad am wobwr CATE. Mae'n ardstio'r cais a wneir gan y tîm a enwebwyd ac yn fframio cyrhaeddiad, gwerth ac effaith ymarfer y tîm o safbwynt sefydliadol.

Ni ddylai'r Datganiad o Gefnogaeth gynnwys tystiolaeth atodol (na newydd); dylai agweddau craidd cais y tîm, a thystiolaeth i gefnogi'r agweddau hynny, gael eu cynnwys yn Adran B y Cais. Dogfen atodol yw Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad. Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth ddilysu'r effaith a nodwyd yn nhystiolaeth y tîm, darparu cyd-destun sefydliadol ar gyfer gwaith y tîm a chynnwys unrhyw wybodaeth atodol a allai fod yn fwy priodol i'r Is-Ganghellor neu swyddog cyfatebol* ei datgan.

Dylid cwblhau'r Datganiad o Gefnogaeth gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael i'w llwytho oddi ar y Rhith-amgylchedd Dysgu. Rhaid i Is-Ganghellor y sefydliad (neu'r swyddog cyfatebol*) lofnodi'r datganiad.

Argymhellir darllen cais y tîm a enwebwyd am wobwr CATE cyn llunio Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad. Yn benodol, dylai'r datganiad:

- gefnogi dilysrwydd Cais y tîm a enwebwyd;
- darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith y tîm a enwebwyd ar ddysgu ac addysgu, ac amlinellu unrhyw gynlluniau i'r dyfodol ar gyfer lledaenu'u hymarfer ymhellach;
- darparu cadarnhad o gefnogaeth sefydliadol i'r tîm a enwebwyd, petaen nhw'n llwyddiannus, i gyflawni unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu;
- darparu gwybodaeth gefnogol ychwanegol a allai fod yn fwy priodol i'r Is-Ganghellor (neu swyddog cyfatebol) ei datgan, yn hytrach na'r tîm a enwebwyd;

- darparu enw, teitl swydd a llofnod yr Is-Ganghellor (neu swyddog cyfatebol*).

* Mae 'Is-Ganghellor neu swyddog cyfatebol' yn cyfeirio at yr unigolyn sydd â'r rôl uchaf yn y sefydliad sy'n enwebu, gan gynnwys Pennaeth neu Lywydd, er enghraifft. Mae croeso i'r Is-Ganghellor neu'r swyddog cyfatebol enwebu uwch arweinydd (er enghraifft Dirprwy Is-Ganghellor) i gwblhau'r datganiad ar eu rhan (dylech gysylltu â cate@advance-he.ac.uk i gadarnhau'r trefniant).

6. Y broses adolygu a dethol

Caiff enwebiadau timau eu hystyried gan adolygwyr cyfoedion annibynnol allanol a fydd yn beirniadu enwebiadau ar sail y wybodaeth a gyflwynir gan y timau a enwebwyd yn erbyn y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE yn Adran B y Cais. Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn dilysu'r cais a wnaed gan y tîm o safbwynt sefydliadol. Ni fydd y Datganiad o'r Cyd-destun ar ddechrau'r Cais (Adran A) yn cael ei adolygu yn erbyn y meini prawf. Diben y datganiad yw gosod cyd-destun i waith y tîm er mwyn fframio'r dystiolaeth a ddarperir yn y ddwy ran ddilynol o Adran B y Cais yn erbyn meini prawf y wobwr (gweler Adran 4.1 uchod).

Caiff adolygwyr cyfoedion Advance HE eu dewis o feysydd proffesiynol dysgu ac addysgu ar draws y sector addysg uwch ac maent yn annibynnol ar Advance HE. Mae pob un yn brofiadol o ran cynnal asesiadau ar sail meini prawf, a byddant wedi cwblhau ymarferiad cymedroli a chael hyfforddiant cyn bod yn un o adolygwyr y cynllun. Mae'r adolygwyr yn cyflawni'u rôl yn gyfrinachol ac ni fydd eu henwau'n cael eu datgelu i aelodau'r tîm, y sefydliadau sy'n enwebu na'r Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn ystod y broses ddethol a gwobrwyo.

Gofynnir i adolygwyr sgorio (0-5) pob rhan o Adran B o Gais y tîm yn erbyn y ddau faen prawf i wobwr CATE yn eu tro, sy'n sicrhau bod yr un pwysoliad yn cael ei roi i bob maen prawf yn ystod y broses asesu. Mae cyfyngiadau llym o ran nifer geiriau'r Cais, a bydd adolygwyr yn cael eu cyfarwyddo i ddiystyru unrhyw rannau o Adran B y Cais sy'n fwy na'r uchafswm o 3500 o eiriau. Mae'r adolygwyr yn defnyddio'r penawdau sgorio (Atodiad 5) i bennu sgoriau.

Yn 2019, bydd Advance HE yn dyrannu pob enwebiad i dri adolygwr er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Yn ogystal, bydd sampl o 10% yn cael ei asesu gan bedwerydd adolygwr fel rhan o'n proses sicrhau ansawdd. Ni fydd hawl gan aseswyr nac aelodau o'r Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu ystyried enwebiadau o'u sefydliadau eu hunain, nac unrhyw sefydliad arall lle gall achos o wrthdaro buddiannau ddigwydd.

Mae Advance HE yn goruchwyllo'r gwaith o safoni asesiadau, yn monitro ac yn prosesu holl ddata timau a enwebwyd er mwyn adrodd i'r Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu. Caiff sgoriau adolygu ar gyfer pob enwebiad eu prosesu fel cyfartaledd rhwng y ddau gyfanswm sgôr agosaf a ddyfarnwyd gan adolygwyr unigol. Yna caiff y sgoriau adolygu cyffredinol eu defnyddio i bennu safleoedd yr enwebeion. Yn ogystal, defnyddir algorithmau, ynghyd â dadansoddiad o sylwadau'r adolygwyr cyfoedion, er mwyn gwahaniaethu rhwng timau sydd â'r un sgôr cyfartalog. Mae'r dull a ddefnyddir yn sicrhau nad oes yr un tîm a enwebwyd yn dioddef anfantais a achosir gan anghysondebau marcio, a

bod yr holl dimau'n cael eu trin yn deg ac yn gyson. Mae'r Panel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn adolygu data cyfle cyfartal, y safleoedd a sylwadau'r adolygwyr ac yn gwneud argymhellion am yr enillwyr, sydd wedyn yn cael eu dilysu gan Grŵp Prif Weithredwyr Advance HE.

Mae Advance HE wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth brosesu enwebiadau, mae Advance HE yn sicrhau na fydd yr un enwebai yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail rhyw, hil, cenedl, tarddiad ethnig neu darddiad cenedlaethol, crefydd neu gred wleidyddol, anabledd, statws priodasol, cefndir cymdeithasol, amgylchiadau teuluol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, euogfarnau sydd wedi darfod, oedran, nac unrhyw reswm arall sy'n groes i'r gyfraith.

7. Canlyniadau a chyhoedduswydd

Bydd yr holl arweinwyr tîm yn cael gwybod am ganlyniad eu henwebiad drwy e-bost yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 15 Gorffennaf 2019. Bydd Is-Ganghellor (neu swyddog cyfatebol) y sefydliad hefyd yn cael gwybod y canlyniad ar y dyddiad hwn. Mae cyhoeddi enillwyr gwobr CATE o dan embargo llym tan yr wythnos sy'n dechrau 5 Awst 2019 (bydd yr union ddyddiad yn cael ei gadarnhau). Un o amodau'r gystadleuaeth yw nad yw timau yn datgelu newyddion eu llwyddiant cyn y dyddiad er mwyn sicrhau'r cyhoedduswydd mwyaf. Gall torri'r amod hwn arwain at ddirymu'r wobwr.

Bydd enwau enillwyr gwobr CATE 2019 yn cael eu cyhoeddi'n swyddogol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 5 Awst 2019 ar wefan Advance HE ac mewn datganiad i'r wasg. Bydd gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys ar y Ffurflen Enwebu a'r lluniau a ddarparwyd gyda'r enwebiad yn cael eu defnyddio mewn deunydd cyhoedduswydd.

Dylid llwytho tri llun maint 1Mb a 300dpi (isafswm) o safon uchel o'r tîm ar y Rhith-amgylchedd Dysgu fel rhan o'r enwebiad i'w defnyddio ar wefan Advance HE a llyfryn y seremoni. Dylai'r tri llun fod yn wahanol. Drwy ddarparu lluniau i Advance HE, mae aelodau'r tîm yn cydsynio i Advance HE ddefnyddio'r lluniau at ddibenion hyrwyddo neu gyhoedduswydd. Mae aelodau'r tîm hefyd yn cadarnhau mai nhw yw perchennog unrhyw hawliau eiddo deallusol, neu fod ganddynt drwydded briodol i rannu'r lluniau gydag Advance HE ac sy'n rhoi hawl i Advance HE ddefnyddio'r lluniau a ddarparwyd i'r diben hwn.

Ar ôl i ganlyniadau gwobr CATE 2019 gael eu cyhoeddi, bydd Advance HE yn cyhoeddi adborth ysgrifenedig unigol i bob tîm. Bwriad yr adborth ansoddol hwn gan yr adolygwyr yw ategu cynlluniau ar gyfer datblygiad i'r dyfodol. Ni fydd sgoriau a safleoedd timau yn cael eu rhyddhau. Anogir timau i rannu'u hadborth gyda'r cyswllt sefydliadol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd am enwebiadau llwyddiannus gan y sefydliad ar gyfer gwobrau CATE yn y dyfodol.

Cystadleuaeth yw gwobr CATE sy'n golygu bod penderfyniad y Panel yn derfynol, ac ni chaniateir apelio yn erbyn eu penderfyniad. Dylid dilyn proses achwyno Advance HE i ddelio ag unrhyw faterion o drin pobl yn deg wrth weinyddu enwebiadau. Yn yr achos cyntaf, os bydd unrhyw gwestiynau neu bryderon yn codi, dylid e-bostio cate@advance-he.ac.uk neu

ffonio 01904 717500 a gofyn i gael siarad â Jo Masterson, Pennaeth Gweithrediadau ac Ansawdd Advance HE.

8. Y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad rhwydweithio

Bydd enillwyr gwobr CATE 2019 yn cael eu gwahodd i ginio dathlu a fydd yn cael ei gynnal ym mis Medi 2019 (dyddiad i'w gadarnhau), lle bydd dau aelod o'r tîm, a'r Is-Ganghellor (neu'r swyddog cyfatebol) yn cael gwahoddiad. Mae'n bosib y bydd modd prynu tocynnau ychwanegol.

Bydd enillwyr gwobr CATE 2019 hefyd yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad rhwydweithio ar brynhawn diwrnod y seremoni wobrwyo, a fydd yn gyfle i rwydweithio gydag enillwyr eraill.

9. Adroddiad gan enillwyr gwobr CATE

Mae gofyn i holl enillwyr CATE 2019 gwblhau adroddiad interim 18 mis ac adroddiad terfynol ar ôl 3 blynedd i nodi ffyrdd mae'r wobwr wedi cael effaith ar eu tîm a'u myfyrwyr/cydweithwyr/sefydliad neu'n ehangach. Bydd Advance HE yn cysylltu ag arweinwyr y timau llwyddiannus ar yr adeg briodol gyda chais i gwblhau'r adroddiad. Os bydd arweinydd y tîm wedi gadael y tîm (e.e. ar ôl cael swydd newydd), dylai'r sefydliad benodi aelod arall o'r tîm i fod yn gyfrifol am adrodd i Advance HE.

Atodiad 1: Gofynion enwebu ar gyfer timau a chysylltiadau sefydliadol

√	Tasg
	<p>Cofrestru</p> <p>O 9 Ionawr 2019 ymlaen, bydd y cyswllt sefydliadol a enwyd yn cael mynediad at Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE.</p>
	<p>Rhestr wirio sefydliadol (ar gael i'w llwytho o'r Rhith-amgylchedd Dysgu, i'w chyflwyno fel ffeil PDF)</p> <p>Dylai'r cyswllt sefydliadol lenwi a llofnodi'r ffurflen hon er mwyn cadarnhau bod yr holl ddogfennau a ffurflenni wedi'u gwirio a/neu eu cyflwyno.</p>
	<p>Cais (ar gael i'w lwytho o'r Rhith-amgylchedd Dysgu, i'w gyflwyno fel ffeil Word)</p> <p>Y tîm a enwebwyd ddylai lenwi'r Cais ac arweinydd y tîm yn unig ddylai ei lofnodi. Dylai'r Cais gael ei wneud ar y profforma a lwythwyd i lawr a'i gyflwyno gan y cyswllt sefydliadol.</p>
	<p>Datganiad o Gefnogaeth (ar gael i'w lwytho o'r Rhith-amgylchedd Dysgu, i'w gyflwyno fel ffeil PDF)</p> <p>Is-Ganghellor y sefydliad (neu swyddog cyfatebol) ddylai ysgrifennu a llofnodi'r datganiad yn seiliedig ar Gais yr enwebai, a'r cyswllt sefydliadol ddylai ei gyflwyno.</p>
	<p>Ffurflen Enwebu (drwy Arolygon Ar-lein)</p> <p>Arweinydd y tîm ddylai lenwi'r ffurflen gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar Arolygon Ar-lein drwy'r ddolen hon. Ar ddiwedd y ffurflen, dylai arweinydd y tîm gofnodi'r rhif cyfeirnod unigryw a'i basio ymlaen i'r cyswllt sefydliadol i'w gynnwys ar y ffurflen gyffredinol.</p>
	<p>Lluniau</p> <p>Dylid llwytho tri llun maint 1Mb a 300dpi (isafswm) o safon uchel o'r tîm ar y Rhith-amgylchedd Dysgu i'w defnyddio ar wefan Advance HE a llyfryn y seremoni. Dylai'r tri llun fod yn wahanol a dylent fod ar ffurf ar draws.</p>
	<p>Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal (ar-lein, drwy'r ddolen hon)</p> <p>Rhaid i bob aelod o'r tîm lenwi ffurflen monitro cyfle cyfartal ar-lein. Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio'n ddiennw. Dylai'r cyswllt sefydliadol gadarnhau bod pob aelod o'r tîm wedi llenwi ffurflen.</p>
	<p>Ffurflen Dalu ar gyfer Ymgeiswyr CATE (os yw'n berthnasol) (ar gael o'r Rhith-amgylchedd Dysgu)</p> <p>I'w llenwi a'i hanfon at dîm cyllid Advance HE yn finance@advance-he.ac.uk</p>
	<p>Cyflwyno Cais</p> <p>Dylai'r cyswllt sefydliadol lwytho'r holl ddogfennaeth enwebu ar Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE erbyn 15:00 (GMT) ddydd Mercher 27 Mawrth 2019.</p>

Atodiad 2: Dyddiad cau ac amserlen asesu

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau ac amserlen y broses asesu fel a ganlyn:

Dyddiad	Carreg filltir
Dydd Mercher 9 Ionawr 2019	<p>Galwad am enwebiadau yn agor</p> <p>Bydd holl ffurflenni a chanllawiau CATE yn cael eu rhyddhau. Gall cysylltiadau sefydliadol gofrestru i gael mynediad at Rith-amgylchedd Dysgu Advance HE ar y dyddiad hwn.</p>
Dydd Mercher 27 Mawrth 2019	<p>Dyddiad cau enwebiadau</p> <p>Dylai'r holl gopïau electronig o ddogfennau enwebu gael eu llwytho ar y Rhith-amgylchedd Dysgu erbyn 15:00 (GMT). Bydd mynediad at y Rhith-amgylchedd Dysgu i gysylltiadau sefydliadol yn cau bryd hynny.</p>
Wythnos yn dechrau 15 Gorffennaf 2019	<p>Rhyddhau canlyniadau unigol</p> <p>Bydd enwebeion ac Is-Ganghellor y sefydliad enwebu (neu swyddog cyfatebol) yn cael gwybod am ganlyniad eu henwebiad. Mae'r wybodaeth hon o dan embargo tan y dyddiad cyhoeddi swyddogol, a fydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 5 Awst 2019.</p>
Wythnos yn dechrau 5 Awst	<p>Rhyddhau'r cyhoeddiad swyddogol</p> <p>Advance HE yn cyhoeddi enwau enillwyr gwobr CATE 2019 (dyddiad penodol i'w gadarnhau).</p>
Medi 2019	<p>Seremoni Wobrwyo</p> <p>Cynhelir y seremoni wobrwyo yn ystod mis Medi (dyddiad i'w gadarnhau).</p>

Atodiad 3: Ffurflen Gais CATE 2019

Enw Arweinydd y Tîm:	
Enw'r tîm:	
Sefydliad:	
Adran A: Datganiad o'r cyd-destun (nid yw'n cael ei sgorio gan adolygwyr)	
Nifer y geiriau yn Adran A (dim mwy na 300 gair)	<i>Nodwch nifer y geiriau yn Adran A</i>
Adran B: Cais yn erbyn Meini Prawf gwobr CATE	
(bydd adolygwyr yn sgorio'r dystiolaeth yn erbyn Maen Prawf 1 a 2 ar wahân)	
Maen Prawf 1: Rhagoriaeth yn null cydweithredol y tîm	
Tystiolaeth o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd; sy'n gymesur â chyd-destun y tîm a'r cyfleoedd mae hynny'n ei gynnig.	

Maen Prawf 2: Rhagoriaeth o ran effaith gweithio ar y cyd

Tystiolaeth bod y tîm wedi cael effaith amlwg ar ddysgu ac addysgu gan gynnwys y tu hwnt i faes academaidd neu broffesiynol cyfyng y tîm.

Nifer y geiriau yn Adran B (dim mwy na 3500 o eiriau)

Nodwch nifer y geiriau yn Adran B

Adran C: Rhestr Gyfeirnodau (nid yw'n cael ei sgorio gan adolygwyr)

Llofnod arweinydd y tîm*:
(*caiff llofnodion electronig eu derbyn)

Dyddiad:

Drwy lofnodi'r ddogfen hon, rwy'n cadarnhau:

- Fy mod wedi darllen, deall a chytuno i [Hysbysiad Preifatrwydd Advance HE](#)
- Mai gwaith y tîm CATE a enwebwyd yn unig yw'r Cais

Atodiad 4: Datganiad o Gefnogaeth

Rhaid i Is-Ganghellor y sefydliad (neu'r swyddog cyfatebol) gwblhau a llofnodi'r Datganiad o Gefnogaeth. Argymhellir darllen Cais y tîm cyn llunio'r datganiad hwn.

Enw:		
Swydd:		
Sefydliad:		
Cyfeiriad:		
	Cod Post:	
Rhif ffôn gwaith:		
E-bost:		
Enw'r tîm CATE a enwebwyd:		
<p>Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gefnogi dilysrwydd cais y tîm am ragoriaeth; ○ darparu cyd-destun sefydliadol a fu'n sail i gydnabod effaith eithriadol y tîm a enwebwyd ar addysgu a dysgu; ○ darparu cadarnhad o gefnogaeth i'r tîm, petaen nhw'n llwyddiannus, i gyflawni unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu; ○ darparu gwybodaeth gefnogol ychwanegol a allai fod yn fwy priodol i'r Is-Ganghellor (neu swyddog cyfatebol) ei datgan, yn hytrach na'r tîm sy'n cael ei enwebu. 		
Geiriau (dim mwy na 1000 o	<i>Nodwch nifer y geiriau</i>	

eiriau:	
Llofnod*: (*caiff llofnodion electronig eu derbyn)	
Dyddiad:	
<p>Drwy lofnodi'r ddogfen hon, rwy'n cadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fy mod wedi darllen, deall a chytuno i Hysbysiad Preifatrwydd Advance HE.• Caiff Advance HE ddefnyddio'r ffurflen hon fel cadarnhad o fy nghefnogaeth petai'r tîm a enwebwyd yn ennill Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu, ac y bydd y sefydliad yn cefnogi enillydd y wobr yn llawn wrth gynnal unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â bod yn enillydd Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu.	

Atodiad 5 – Penawdau sgorio CATE 2019

Mae adolygwyr yn defnyddio'r penawdau sgorio isod i 'sgorio' y ddau ran yn Adran B o Gais y tîm yn erbyn y ddau faen prawf ar gyfer gwobr CATE (h.y. uchafswm sgôr posib o 10 gan bob un o'r tri adolygwr):

Proffil sgorio cyffredinol	Mae'r tîm a enwebwyd yn darparu tystiolaeth ragorol i ddangos eu heffaith ar ddysgu ac addysgu.	Mae'r tîm a enwebwyd yn darparu tystiolaeth dda iawn i ddangos eu heffaith ar ddysgu ac addysgu.	Mae'r tîm a enwebwyd yn darparu tystiolaeth dda i ddangos eu heffaith ar ddysgu ac addysgu.	Mae'r tîm a enwebwyd yn darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos eu heffaith ar ddysgu ac addysgu.	Mae'r tîm a enwebwyd yn darparu tystiolaeth gyfyngedig i ddangos eu heffaith ar ddysgu ac addysgu.	Mae'r tîm a enwebwyd yn darparu tystiolaeth wan/dim tystiolaeth i ddangos eu heffaith ar ddysgu ac addysgu.
Sgoriau	5 pwynt	4 pwynt	3 phwynt	2 bwynt	1 pwynt	0 pwynt
Maen Prawf 1: Rhagoriaeth yn null cydweithredol y tîm	+ tystiolaeth ragorol o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm.	+ tystiolaeth dda iawn o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm.	+ tystiolaeth dda o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm.	+ tystiolaeth ddigonol o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm.	+ tystiolaeth gyfyngedig o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm.	+ tystiolaeth wan/dim tystiolaeth o ragoriaeth yn null y tîm o weithio ar y cyd, sy'n gymesur â chyd-destun y tîm.
Maen Prawf 2: Rhagoriaeth o ran effaith gweithio ar y cyd	+ tystiolaeth ragorol sy'n dangos yn llawn effaith y tîm ar ddysgu ac addysgu, sy'n mynd y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	+ tystiolaeth dda iawn sy'n dangos yn glir effaith y tîm ar ddysgu ac addysgu sy'n mynd y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	+ tystiolaeth dda sy'n dangos effaith y tîm ar ddysgu ac addysgu, sy'n mynd y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	+ tystiolaeth ddigonol sy'n dangos yn rhannol effaith y tîm ar ddysgu ac addysgu, sy'n mynd y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	+ tystiolaeth gyfyngedig sy'n dangos rhywfaint o effaith y tîm ar ddysgu ac addysgu, sy'n mynd y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	+ tystiolaeth wan neu ddim tystiolaeth sy'n dangos methiant gan y tîm o ran cael effaith ar ddysgu ac addysgu, sy'n mynd y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.

Atodiad 6 Datganiad Preifatrwydd CATE Advance HE

Atodlen 1: Diogelu Data

Mae'r atodlen hon yn disgrifio sut mae Advance HE yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi pan fyddwch chi'n cyflwyno eich enwebiad i ni. At ddibenion deddfwriaeth diogelu data Deddf Diogelu Data 2018 (p.12) ("y Ddeddf"), Advance HE yw'r "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gyfrifol am benderfynu sut rydyn ni'n dal ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae gofyn i ni, o dan ddeddfwriaeth diogelu data, i'ch hysbysu o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr atodlen hon. Mae Advance HE yn gwmni cyfyngedig drwy warant a ymgorfforwyd yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 4931031, ac a gofrestrwyd fel elusen yn Lloegr gyda'r rhif elusen 1101607 ac yn yr Alban gyda'r rhif elusen SC043946. Mae ei swyddfa gofrestredig yn Innovation Way, York Science Park, Caerefrog YO10 5BR. Mae modd cysylltu â ni hefyd yn data.protection@advance-he.ac.uk neu drwy ffonio 01904 717500.

Sut rydyn ni'n gwarchod eich gwybodaeth bersonol

Rydym wedi ymrwymo i ddal eich gwybodaeth bersonol a ddarparwyd yn eich enwebiad yn ddiogel.

Pan fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei dal yn electronig, caiff ei dal ar system gyfrifiadurol sy'n eiddo i Advance HE ac sy'n cael ei reoli ganddo neu gan drydydd partion eraill a benodwyd gan Advance HE.

Er mwyn gweinyddu'r cynllun yn effeithiol, mae Advance HE yn storio'r manylion a ddarparwyd mewn dogfennaeth enwebu ar ffurf papur ac yn electronig. Mae copïau papur yn cael eu dal yn lleol gan Advance HE yn ein swyddfeydd neu'n ddiogel gan ein staff neu'n contractwyr. Weithiau byddwn ni'n gwneud copïau electronig o ddogfennau papur neu'n teipio gwybodaeth ohonynt. Caiff y dogfennau neu'r wybodaeth hon ei storio'n ddiogel ar ein system gyfrifiadurol.

Mae'r broses enwebu'n digwydd drwy system Rhith-amgylchedd Dysgu Advance HE. Bydd yr holl wybodaeth a ddarparwyd i ni yn cael ei throsglwyddo a'i storio ar ein gweinydd diogel neu weinydd trydydd parti y gallwn ni ei benodi o dro i dro i gynnal y Rhith-amgylchedd Dysgu a/neu i storio gwybodaeth.

Byddwn ni ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod sy'n angenrheidiol i gyflawni'r diben y casglwyd hi (gweler "**Y defnydd a wnawn o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen hon**" isod).

Timau CATE llwyddiannus

Bydd Advance HE yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod y byddwch chi'n ddeiliad gwobr ar y cyd.

Timau CATE aflwyddiannus

Er mwyn pennu'r cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydyn ni'n ystyried maint, natur, a sensitifrwydd y data personol, y perygl o niwed posib o ddefnydd neu ddatgeliad diawdurdod o'ch data personol, y dibenion y byddwn yn prosesu eich data personol ac a fyddai modd i ni gyflawni'r dibenion hynny drwy ffyrdd amgen, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol. Bydd Advance HE yn sicrhau bod ein darparwyr a'r trydydd partiön dethol y byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol chi â hwy yn unol â'r atodlen hon yn dileu eich gwybodaeth bersonol pan na fydd ei hangen arnyn nhw.

Y defnydd a wnawn o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen hon

Mae'r sefyllfaoedd y byddwn ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol wedi'u rhestru isod:

- I gyfathrebu â chi am eich enwebiad.
- Dibenion gweinyddu gan gynnwys sefydlu, diwygio, cau neu adnewyddu cyfrifon defnyddwyr ar gyfer y Rhith-amgylchedd Dysgu.
- Gwerthuso a dadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gennych chi yn ein ffurflenni.
- I ddelio ag unrhyw ymholiadau neu gŵynion sy'n ymwneud â'ch enwebiad ar gyfer y Cynllun Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu.
- Cynhyrchu adroddiadau at ddefnydd mewnol ar ein cyfer ni, ein staff a'r Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu o ran eich enwebiad.

Ein sail gyfreithiol dros y gweithgareddau hyn yw ein anghenraid i gyflawni ein contract gyda chi (gan ein bod wedi ymrwymo i adolygu a phrosesu eich enwebiad).

- Penodi darparwyr gwasanaeth trydydd parti i ddefnyddio eich data personol at ein dibenion ni (nid dibenion y trydydd parti) ar ein rhan, o dan ein cyfarwyddyd, er enghraifft gwasanaethau cynnal ar gyfer defnyddio'r Rhith-amgylchedd Dysgu, i adolygwyr cyfoedion allanol yn ogystal ag aelodau'r panel fel rhan o'r broses asesu, i drydydd partiön sy'n cynorthwyo Advance HE i adolygu prosesau adolygu a gweithgareddau gwerthuso i'r dyfodol.
- Cadw mewn cysylltiad â chi i anfon manylion am wybodaeth gwasanaeth, ein cynnyrch a'n gwasanaethau, arolygon, cylchlythyron, digwyddiadau, cyrsiau, seminarau a gweithdai.

Ein sail gyfreithiol dros y gweithgareddau hyn yw i gyflawni ein buddiannau teg i gymryd cymorth allanol i ddarparu'r Cynllun Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu ac i godi ein proffil yn y gymuned addysgu.

- Pe dymunwn ddefnyddio data at ddibenion eraill, byddwn yn dienwi eich gwybodaeth fel nad oes modd ei chysylltu â chi. Yn hynny o beth, ni fydd yn ddata personol mwyach a gallwn ddefnyddio'r data dienw at unrhyw ddiben.

I bwyl arall y gallwn ni basio eich gwybodaeth

Gallwn basio eich gwybodaeth ymlaen at y trydydd partiön canlynol a/neu dimau neu adrannau mewnol yn Advance HE ac i'r dibenion canlynol:

- Eich cyflogwr at ddibenion rhwydweithio a datblygiad proffesiynol.
- Ein darparwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan, er enghraifft darparwyr technoleg gwybodaeth sy'n rheoli, darparu cymorth neu sy'n berchen ar ein cyfrifiaduron neu'r systemau a ddefnyddiwn a'n darparwyr sy'n darparu meddalwedd y Rhith-amgylchedd Dysgu.
- Ein staff neu unigolion a benodwn i adolygu eich enwebiad a gwybodaeth arall a ddarperir gennych yn eich dogfennaeth enwebu.
- Sefydliadau partner y gallwn ni eu defnyddio i ddarparu'r Cynllun Gwobr ar y Cyd am Ragoriaeth mewn Addysgu a'r seremoni wobrwyo.

Mae'n bosib y cawn ein gorfodi yn ôl y gyfraith i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol o dro i dro, er enghraifft gan reoleiddiwr â grym priodol, neu drwy orchymyn llys. Yn ogystal, gall gwybodaeth a gaiff ei dal gan gyrrff cyhoeddus, neu ar ran cyrrff cyhoeddus, fod yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth.

Eich dyletswydd i roi gwybod am newidiadau

Mae'n bwysig bod y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi yn gywir ac yn gyfredol. Dylech roi gwybod i ni os yw eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio gyda ni.

Eich hawliau o ran gwybodaeth bersonol

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych hawl yn ôl y gyfraith i:

- **Wneud cais am fynediad** at eich data personol ("cais gan wrthrych y data"). Mae hyn yn eich galluogi chi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n unol â'r gyfraith.
- **Cais i gywiro** y wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi chi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi.
- **Cais i ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ddileu neu ddiddymu gwybodaeth bersonol pan nad oes rheswm da i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu neu ddiddymu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch chi wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu** eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn ni'n ddibynnol ar fudd teg (neu fuddiannau trydydd parti) a bod rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n peri i chi fod eisiau gwrthwynebu prosesu'r wybodaeth ar y sail honno.
- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni ohirio prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych chi am i ni sicrhau ei bod yn gywir neu bennu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Cais i drosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych chi am adolygu, gwirio, cywiro neu wneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r Tîm Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn ysgrifenedig.

Ni chodir ffi fel arfer

Ni fydd angen i chi dalu ffi i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol (nac i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw eich cais am fynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais o dan amgylchiadau o'r fath.

Yr hyn y gallwn fod ei angen ganddoch chi

Mae'n bosib y byddwn yn gwneud cais am wybodaeth benodol gennych chi er mwyn ein helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i gael mynediad at y wybodaeth (neu i arfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un sydd heb hawl i'w gweld.

Os oes gennych bryderon am y ffordd mae Advance HE yn trin eich gwybodaeth bersonol, mae hawl gennych i wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth (<http://www.ico.gov.uk/>).

Cysylltwch â ni

+44 (0) 3300 416201
cate@advance-he.ac.uk
www.advance-he.ac.uk

 **in f** @AdvanceHE

© 2018 Advance HE. Cedwir pob hawl.

Barn yr awdur yw'r safbwyntiau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Advance HE. Ni chaniateir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, boed yn electronig neu'n fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio, nac ar unrhyw system gadw ac adalw, heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Gan amlaf bydd caniatâd o'r fath yn cael ei roi at ddibenion addysgol, anfasnachol, cyhyd â bod cydnabyddiaeth ddigonol yn cael ei rhoi.

Er mwyn gwneud cais am gopiâu o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â Thîm Marchnata a Chyfathrebu Advance HE:
+44 (0) 3300 416201 neu ntf@advance-he.ac.uk

Mae Advance HE yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr. Rhif cwmni: 04931031. Wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr. Rhif elusen: 1101607. Wedi'i gofrestru fel elusen yn yr Alban. Rhif elusen: SC043946. Ni ddylid defnyddio'r geiriau Advance HE, na'r logo, heb ein caniatâd. Rhif TAW: GB 152 1219 50.